Cofnodion Cyfarfod Arbenig Cyngor Tref Dinbych a gynhaliwyd nos Fercher Ionawr 19eg 2022, cyfarfod Zoom am 6.33yh (i adael pawb i ymuno)

Presennol: Cynghorwyr Rhys Thomas (Chair), Catherine Jones, Gaynor Wood-Tickle, Roy Tickle, Rob Parkes, Dyfrig Berry, Alyn Ashworth, Glenn Swingler, Gaynor Morgan-Rees, Ruth Griffiths, Carla Hargraves, Lara Pritchard, Philip Stevens, Pauline Edwards & Sylvia Jennings; Jenny Barlow (Town Clerk); Bethan Webber

Ymddiheuriadau: Dim (Mae'r Cyng Rob Parkes wedi cynghori y bydd ychydig yn ddiweddarach yn ymuno â'r cyfarfod.)

Croesawodd y cadeirydd bawb i'r cyfarfod arbennig cyllid mis Ionawr.

119 Datganiad Diddordeb Personol:

Cynghorydd	**Eitem**	
Roy Tickle	3 – Town Hall budget	Prejudicial
Gaynor Wood Tickle	3 – Town Hall budget	Prejudicial

Ymunodd y Cyng Rob Parkes, Roy Tickle & Gaynor Wood-Tickle y cyfarfod am 6.38yh.

120 I drafod a pharatoi cyllideb gwario'r cyngor ar gyfer y flwyddyn ariannol 2022/2023 yn dilyn cyflwyniad gan Glerc y Dref.

Dangosodd clerc y dref adroddiadau ariannol i'r Cynghorwyr tref yn ymwneud â'r gyllideb gyfredol, gwariant cyfoes ynghyd â thaliadau posibl i'w gwneud tan ddiwedd y flwyddyn ariannol.

Rhoddodd clerc y dref gyflwyniad byr yn manylu ar bob pwnc ariannol yng ngwariant blynyddol y Cyngor Tref. Roedd hyn yn cynnwys edrych ar y cyllid mewn manylion i sicrhau bod yr holl wariant yn cael ei gynnwys. Cadarnhaodd y clerc y byddai'r gyllideb ar gyfer 2022/2023 yn £310,650.00

Caniataodd y clerc amser i'r Cynghorwyr dreulio'r wybodaeth a ddarparwyd ac yna gweithredu sesiwn holi ac ateb. Atebwyd y cwestiynau i gyd a derbyniwyd y gyllideb ar gyfer y flwyddyn i ddod.

121 I drafod a gosod ffigwr archebiant ar gyfer y flwyddyn ariannol 2021/2022

Rhoddodd y clerc wybodaeth yn ymwneud a'r symiau sy'n ofynnol i dalu'r gwariant ar gyfer y flwyddyn i ddod. Trafodwyd hyn gan y cynghorwyr a chytiwyd ar swm archebiant o £66 yr aelwyd. Mae'r archebiant yn aros yr un fath a'r flwyddyn flaenorol. Byddai hyn yn rhoi ffigur archebiant o £230,208 yn ogystal â defnyddio £47,927 o'r cronfeydd wrth gefn, £16,000 o arian a ddyrennir a £16,515 a'r credydau a dderbyniwyd.

Cytunwyd ar y ffigwr gwariant a'r ffigyrau archebiant gan y cynghorwyr i gyd.

Cytunodd y Cynghorwyr Tref i gadw £30,000 mewn arian wrth gefn a neilltuwyd ar ddiwedd y flwyddyn ariannol gyfredol yn barod ar gyfer y cyfnod pan fydd y trosglwyddiad ased arfaethedig yn digwydd yn neuadd y dref.

Caeodd y cadeirydd y cyfarfod am 19.27yh.

Arwyddwyd:.....(cadeirydd)

Dyddiad.....